Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif 1278 (Cy. 222)

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

## DALIADAU AMAETHYDDOL

# Rheoliadau Amaethyddiaeth (Cyfrifo Gwerth Digollediad) (Dirymiadau) (Cymru) 2019

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Amaethyddiaeth (Cyfrifo Gwerth Digollediad) 1978 o ran Cymru, a thri offeryn sy'n diwygio'r Rheoliadau hynny.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2019 Rhif 1278 (Cy. 222)

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

## DALIADAU AMAETHYDDOL

# Rheoliadau Amaethyddiaeth (Cyfrifo Gwerth Digolledigad) (Dirymiadau) (Cymru) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *24 Medi 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *26 Medi 2019* |
| *Yn dod i rym* | *1 Tachwedd 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 66(2) o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986(**1**).

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Amaethyddiaeth (Cyfrifo Gwerth Digolledigad) (Dirymiadau) (Cymru) 2019.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Tachwedd 2019.

### Dirymiadau

**2.** Mae'r Rheoliadau a ganlyn wedi eu dirymu—

(a) Rheoliadau Amaethyddiaeth (Cyfrifo Gwerth Digolledigad) 1978(**1**);

(**1**) 1986 p. 5; mae adran 96(1) yn diffinio mai "prescribed" ("wedi ei ragnodi") yw wedi ei ragnodi gan y Gweinidog drwy reoliadau, ac mai "the Minister" ("y Gweinidog") yw'r Ysgrifennydd Gwladol o ran Cymru. Mae swyddogaethau'r Gweinidog o dan y Ddeddf bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru (o ran Cymru) yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) Rheoliadau Amaethyddiaeth (Cyfrifo Gwerth Digollediad) (Diwygio) 1980(**2**);

(c) Rheoliadau Amaethyddiaeth (Cyfrifo Gwerth Digollediad) (Diwygio) 1981(**3**);

(d) Rheoliadau Amaethyddiaeth (Cyfrifo Gwerth Digollediad) (Diwygio) 1983(**4**).

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
24 Medi 2019

(**1**) O.S. 1978/809.
(**2**) O.S. 1980/751.
(**3**) O.S. 1981/822.
(**4**) O.S. 1983/1475.